# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-04-10 Papur 2 : 23 Mawrth 2010

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae’r papur hwn wedi’i rannu’n ddwy ran gan adlewyrchu’r ffaith y caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei hystyried mewn dwy eitem ar yr agenda.

### Rhan 1 - Eitem 2

### (i) P-03-134 System Anrhydeddau i Gymru

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno system anrhydeddau i Gymru ac y dylai system o'r fath anrhydeddu'r awdur, Jan Morris.’

**Linc i’r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-134.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Richard Owen

**Nifer y llofnodion:** 38

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 25 Mehefin 2008, 02 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 27 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 2 Mawrth 2009 ac 8 Rhagfyr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae’r Pwyllgor Deisebau wedi sefydlu blog gan wahodd pobl i gynnig sylwadau ar System Anrhydeddau arfaethedig i Gymru.

### (ii) P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove

Gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru:1. Gynghori Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro i

Ddarparu digon o le parcio ar y safle ar gyfer staff ac ymwelwyr trwy gael ardaloedd addas ar gyfer parcio i’r ysbyty ar y safle ac ar dir fel yr ardal ddiffaith i’r gogledd o’r rhandiroedd gyferbyn ag Ysbyty’r Mynydd Bychan ar yr ochr arall i Eastern Avenue,
Datganoli rhai o’r gwasanaethau sydd eisoes ar safle’r Mynydd Bychan a
Pheidio â gwerthu tir ysbytai yng Nghaerdydd a’r ardal gyfagos ar gyfer tai.

2. Argymell bod Cyngor Sir Caerdydd yn

Gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu pellach ar safle Ysbyty’r Mynydd Bychan oni bai bod uned yn cael ei symud o’r safle, a fydd â’r un effaith ar draffig
Peidio â chefnogi datblygiadau amlfeddiannaeth yn yr ardal a
Chyflwyno system parcio am gyfnod cyfyngedig yn y strydoedd sydd o fewn pellter cerdded i Ysbyty’r Mynydd Bychan

3. Ystyried o fewn y Cynulliad, cyflwyno system a fyddai’n caniatáu i grwpiau lleol apelio i’r Cynulliad pan fydd y cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y mae’r trigolion yn ystyried a fydd yn gwaethygu’r broblem barcio yn yr ardal.

**Linc i’r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-136.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Y Cynghorydd Ron Page

**Nifer y llofnodion:** 500+

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Mai 2008, 09 Gorffennaf 2008, 02 Hydref 2008, 06 Tachwedd 2008, 27 Ionawr 2009, 17 Mawrth 2009 ac 8 Rhagfyr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Paper 2A.

### (iii) P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio a yw’r strategaethau a’r cynlluniau gweithredu angenrheidiol ar waith gan

Fyrddau Iechyd Lleol er mwyn cyrraedd y targed o ran cyflawni â'r Safonau Canser Cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2008 yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru, fel mater o frys.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-150.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Rhondda Breast Friends

**Nifer y llofnodion:** Casglodd yr e-ddeiseb 43 o lofnodion. Yn ogystal â hyn, mae Rhondda Breast Friends wedi datblygu siarter ar gyfer gwella gwasanaethau gofal canser gan gasglu 1,475 o lofnodion.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Gorffennaf 2008, 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 31 Mawrth 2009, 24 Tachwedd 2009 a 19 Ionawr 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

### (iv) P-03-153 Celf Corff

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfyngiadau ar yr oed y gall plentyn dan oed gael celf corff. Dylid cyfyngu'r oed ar gyfer celf corff, ar wahân i'r clustiau a'r trwyn, i 16 oed.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-153.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Y Cynghorydd Russell Downe

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 10 Chwefror 2009, 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009, 24 Tachwedd 2009 ac 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

### (v) P-03-156 Dal anadl wrth gysgu

### Geiriad y ddeiseb

Y dylai Cymru gael polisi effeithiol, cydlynol ac sydd wedi'i gyllido'n dda ar gyfer pob claf sydd ag anhwylder cysgu. Byddai hyn yn cynnwys darparu peiriannau sy'n Pwyso'n Barhaus ac yn Gadarnhaol ar y Sianel Aer (CPAP) ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael diagnosis o Ddal Anadl wrth Gysgu Rhwystrol (OSA).

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-156.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Welsh Sleep Apnoea Society

**Nifer y llofnodion:** 1 sefydliad

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 2 Mawrth 2009, 31 Mawrth 2009, 24 Tachwedd 2009 ac 19 Ionawr 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

### (vi) P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffyrdd ym mhentref Llansbyddyd, ger Aberhonddu ym Mhowys, drwy weithredu mesurau i arafu'r traffig, fel gostwng y terfyn cyflymder presennol, gwella'r goleuadau ar ochr y ffordd a gwella'r arwyddion ar yr A40.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-162.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cymdeithas Trigolion Llansbyddyd

**Nifer y llofnodion:** 67

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 2 Mawrth 2009, 24 Tachwedd 2009 ac 19 Ionawr 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

### (vii) P-03-182 Arian Ewropeaidd

### Geiriad y ddeiseb

Drwy'r ddeiseb hon, rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol i lansio ymchwiliad i'r defnydd economaidd o arian Ewropeaidd a dderbyniwyd gan Gymru ers y flwyddyn 2000 ac i'r dulliau arfaethedig ar gyfer darparu'r cronfeydd Cydgyfeirio yn 2007-14.Rydym yn bryderus yn benodol ynghylch strategaethau sy'n gwrthdaro, megis gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i weithredu fel barnwr a rheithgor, ac ar yr un pryd yn cystadlu â'r sector preifat am yr adnoddau prin hyn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-182.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** T Wyn Price

**Nifer y llofnodion:** 39 o gyfarwyddwyr busnes o orllewin Cymru.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 22 Medi 2009 ac 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Menter a Dysgu ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

### Rhan 2 - Eitem 6

### (i) P-03-187 Diddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y DU yn San Steffan i wneud popeth o fewn ei allu i ddiddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-187.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** John Warman

**Nifer y llofnodion:** 23

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 2 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009, 6 Hydref 2009 ac 1 Chwefror 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

### (ii) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn protestio yn erbyn israddio Uned Gofal Arbennig i Fabanod Ysbyty Brenhinol Morgannwg o uned gofal dwys lefel 3 i uned dibyniaeth mawr. Er ein bod yn deall yr angen i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddigonol a bod gan y staff y cymwysterau addas i sicrhau bod cleifion yn ddiogel, rydym yn gresynu wrth y diffyg buddsoddi sydd wedi arwain at y sefyllfa hon.Rydym felly yn ceisio'r sicrwydd mai rhywbeth dros dro am yr amser byrraf bosibl yw'r israddio hwn, ac y bydd yr uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei hailsefydlu fel uned gofal dwys lefel 3 lawn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-188.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Zoe Walters

**Nifer y llofnodion:** 2240

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 5 Mai 2009, 9 Mehefin 2009, 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig a'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

**(iii) P-03-217 Llyfrgll Genedlaethol Cymru - agor ar ddydd Sadwrn**

**Geiriad y ddeiseb**

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddarparu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i alluogi'r Llyfrgell i wrthdroi ei benderfyniad i gau ar ddydd Sadwrn o'r 1af Ebrill 2009. Dydd Sadwrn yw unig ddiwrnod yr wythnos y gall ymchwilydd brwdfrydig, amatur sy'n gweithio, ymweld â'r llyfrgell.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-217.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Nicholas Davey

**Nifer y llofnodion:** 93

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009, 22 Medi 2009, 24 Tachwedd 2009 ac 1 Chwefror 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Tretadaeth, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Paper 2A.

### (iv) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i achub ein fferyllfeydd stryd fawr lleol. Ein bwriad, wrth gyflwyno'r ddeiseb hon, yw dangos anghysonderau cyfredol y system bresennol o 'gymdogaethau' fel ag y maent mewn perthynas ag ail-leoli fferyllfeydd yng Nghymru.Ni chaniateir i unrhyw fferyllfa ail-leoli ar raddfa fach fel y diffinnir yn Rheoliadau Fferyllfeydd 1992 oni bai ei bod o fewn y gymdogaeth a ddiffinnir.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-219.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Aneurin Evans Chemists Ltd. a Judith Evans Pharmacies

**Nifer y llofnodion:** 3000+

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 23 Mehefin 2009, 6 Hydref 2009, 8 Rhagfyr 2009 ac 1 Chwefror 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

**(v) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cylfymder ar yr A40 ger y Fenni**

**Geiriad y ddeiseb**

Deiseb at Gynulliad Cenedlaethol Cymru:Er mwyn i gerddwyr allu cerdded yn ddiogel, teimlwn ei bod yn hanfodol bod y terfyn cyflymder o 40 mya ar yr A40 rhwng cylchfan Hardwick a Fforddd Plas Derwen yn cael ei ostwng i o leiaf 30 mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-220.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Y Cynghorydd Maureen Powell

**Nifer y llofnodion:** 220

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 22 Medi 2009, 10 Tachwedd 2009 ac 1 Chwefror 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

**(vi) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, Fforwm Pobl Hyn dros 50 oed Cwm Cynon, am gyflwyno deiseb yn galw am well triniaeth traed drwy'r GIG, yn enwedig i bobl

hyn sy'n gaeth i'w tai yn ardal Rhondda Cynon Taf:Llofnodwch ein deiseb

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-221.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Fforwm Pobl Hŷn 50+ Cwm Cynon

**Nifer y llofnodion:** 49

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009, 22 Medi 2009, 24 Tachwedd 2009 ac 19 Ionawr 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

**(vii) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymyrryd i atal cau Meithrinfa Stepping Stones ar gampws Glyn Ebwy, Coleg Gwent.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-224.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Brian Walters

**Nifer y llofnodion:** 20 (yn ogystal â hyn, casglodd y deisebydd 1000+ o lofnodion ar ddeiseb gysylltiedig)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009, 22 Medi 2009, 24 Tachwedd 2009 ac 1 Chwefror 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (viii) P-03-227 Ffordd fynediad yn Llanmaes/ P-03-252 Gwrthwynebu ffordd fynediad ogleddol canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan (trigolion Trebefered)

### P-03-227 Ffordd fynediad yn Llanmaes

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, preswylwyr Llanmaes, Millands Park, a'r ardal wledig gyfagos yn gwrthwynebu:

Y ffordd fynediad ogleddol arfaethedig ar gyfer y Coleg Amddiffyn Technegol arfaethedig

Yr ystâd dai arfaethedig - Fferm Tremains

Gwrthwynebwn yr uchod am y rhesymau a ganlyn:

1.Mae'n golygu dinistrio safle maes glas pan fo safleoedd tir llwyd ar gael

2.Bydd yn creu cryn lygredd swn, golau a llwch

3.Bydd yn achosi niwed ecolegol sylweddol

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-227.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cyngor Cymuned Llanmaes

**Nifer y llofnodion:** 416

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009, 20 Hydref 2009 ac 19 Ionawr 2010

### P-03-252 Gwrthwynebu ffordd fynediad ogleddol canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid ei chynlluniau ar gyfer Academi Dechnegol Amddiffyn yn Sain Tathan fel nad oes ffordd fynediad ogleddol yn cael ei hadeiladu a bod y safleoedd maes glas yn Fferm Tremain, Picketston ac Eglwys Brewis yn cael eu cadw.Byddai hyn yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau 95% o'r 395 unigolyn yr ymgynghorwyd â hwy yn Nhrebefered.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-252.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Trigolion Trebefered

**Nifer y llofnodion:** Cynigiwyd y ddeiseb hon gan drigolion Trebefered, a chasglodd 3 o lofnodion. Yn ogystal â hyn, casglodd y deisebwyr 377 o lofnodion ar ddeiseb gysylltiedig.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Hydref 2009 a 24 Tachwedd 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Paper 2A.

**(ix) P-03-230 Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod y traddodiad cryf o wrthwynebiad cydwybodol yng Nghymru, trwy nodi Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol ar 15 Mai bob blwyddyn â digwyddiad blynyddol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-230.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cynefin y Werin / Common Ground

**Nifer y llofnodion:** Cynigiwyd y ddeiseb gan Cynefin y Werin / Common Ground, a chasglodd 14 o lofnodion.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Hydref 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Brif Weinidog Cymru ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (x) P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn / P-03-241 Save Our Sewers - Llanelli Star

**P-03-238** Llygredd ym Mornant Porth Tywyn

### Geiriad y ddeiseb

Deiseb gan drigolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn am ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth cynulliad Cymru i'r llygredd carthffosiaeth ym Mornant Porth Tywyn a Bae Caerfyrddin.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-238.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Rhys Williams

**Nifer y llofnodion:** 2240

**P-03-241 Llanelli Star - Achubwch ein carthffosydd**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni'n cefnogi ymgyrch y Llanelli Star i wella ein carthffosydd, yn paratoi'r ffordd i gannoedd o swyddi ddod i'r ardal ac yn atal carthffosiaeth rhag cael ei gollwng a rhag dinistrio ein hamgylchedd.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-241.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Llanelli Star

**Nifer y llofnodion:** 425

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009, 10 Tachwedd 2009 ac 19 Ionawr 2010.

### Y wybodaeth ddiweddaraf: Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a chan y deisebydd, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xi) P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

**Geiriad y ddeiseb**

Oherwydd y lefel gynyddol o draffig, yn enwedig cerbydau nwyddau trwm, ar yr A40 ac oherwydd y ddarpariaeth annigonnol o balmentydd a chroesfannau cerddwyr diogel, a gydnabyddir gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd drwy ymchwil â gyflwawnwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffordd ym mhentre Llanddewi Felffre, Arberth, Sir Benfro, drwy roi'r mesurau a ganlyn ar waith, a hynny ar fyrder:

Gwella'r palmant annigonol ar hyd ochr ddeheuol yr A40 rhwng Llandaff Row a phen dwyreiniol y pentref i sicrhau ei fod yn boddhau safonau diogewlch presenol, a'i fod yn ddigon llydan i gael ei ddefnyddio'n ddiogel gan gerddwyr, cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn gan roi ystyriaeth i'r ffaith bod cerbydau nwyddau trwm yn gyrru heibio'n agos ac yn aml yn gyrru yn gyflymach na'r terfyn cyflymder presennol o 40 mya.

Gosod camerâu cyflymdra yn nwyrain ac yng ngorllewin y pentref.

Defnyddio system drydanol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer arwyddion i groesi'r ffordd er mwyn darparu goleuadau rhybudd sy'n fflachio ar adegau pan fydd plant yn croesi'r A40 i ddal eu bws ysgol.

Gosod mesurau i ostegu traffig bob ochr i'r pentref ac ar gyffyrdd i bwysleisio'r angen i arafu.

Gostwng y terfyn cyflymder i 30mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-240.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre

**Nifer y llofnodion:** 154

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009, 10 Tachwedd 2009, 8 Rhagfyr 2009 ac 1 Chwefror 2010

### Y wybodaeth ddiweddaraf: Cafwyd ymateb gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xii) P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranabrthol gorllewin Caer / gogledd-ddwyrain Cymru

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu nôl yn ffurfiol o'r strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer/Gogledd-ddwyrain Cymru.Rydym ni, yr isod, yn dadlau fod strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer/Gogledd-ddwyrain Cymru yn gynllun di-feddwl, hynod niweidiol a thywyllodrus. Mae'r oblygiadau'n enfawr, gan effeithio ar nifer fawr o agweddau o fywyd yng Ngogledd Cymru.• Hunaniaeth a hawliau dynol (yn nhermau identiti Cymreig, iaith, diwyllaint, cymeriad a mynegiant)• Amgylcheddol (yn nhermau cynaladwyedd, ecoleg, yr amgylchedd a'r amgylchedd adeiladol) a• Cynaladwyedd cymdeithasol (yn nhermau demograffeg, economeg, gwleidyddiaeth a chymunedau).

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-243.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cyngor Pobl Gogledd Cymru

**Nifer y llofnodion:** 15220 (Yn ogystal â hyn, mae'r deisebwyr wedi casglu 4500 o lofnodion ychwanegol ers cyflwyno'r ddeiseb)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 8 Rhagfyr 2009, 19 Ionawr, 1 Chwefror 2010 a 23 Chwefror 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y prif ddeisebydd a Chynghrair Mersi a Dyfrdwy ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xiii) P-03-247 Achub cartref Hedd Wyn

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i gydnabod pwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol cyn gartref Hedd Wyn ac i chwilio am ffyrdd y gellir diogelu'r rhan bwysig hon o hanes Cymru ar gyfer y genedl.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-247.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Keith Underdown

**Nifer y llofnodion:** 25

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

**(xiv) P-03-248 Gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl ag anableddau**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn credu y dylai fod trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i bobl ag anableddau. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch i bawb.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb gan Multiple Sclerosis Society, a chasglodd 789 o lofnodion. Mae'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth ategol yn ymwneud â'r ddeiseb ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-248.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Multiple Sclerosis Society.

**Nifer y llofnodion:** 789

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Hydref 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

## (xv) P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat (trigolion Sir Gaerfyrddin)

**Geiriad y ddeiseb**

Mae deiseb trigolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn i Gynulliad Cymru sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflymu ei thrafodaethau â Dwr Cymru ac yn cytuno ar y dyddiad cynharaf posibl i garthffosydd preifat ar ystadau tai presennol gael eu mabwysiadu gan Ddŵr Cymru a bod carthffosydd ar ddatblygiadau yn y dyfodol yn cael eu mabwysiadu yn yr un modd.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-253.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Tracy Thomas

**Nifer y llofnodion:** 260

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Hydref 2009 ac 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

**(xvi) P-03-254 Sylwadau trydydd parti mewn cyfarfodydd cynllunio**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno hawliau i drydydd parti lefaru mewn cyfarfodydd Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy Gymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-254.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Y Cynghorydd Nic Hodges

**Nifer y llofnodion:** 94

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 24 Tachwedd 2009 ac 19 Ionawr 2010.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

## (xvii) P-03-255 Darpariaeth ar gyfer y rhai sydd ag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

## Geiriad y ddeiseb

Hoffem ni yn Ysgol Gyfun Sant Julian pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried gwarchod darpariaeth addysg arbennig o fewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-255.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Disgyblion Uned Addysg Arbennig Ysgol Sant Julian, Casnewydd

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 10 Tachwedd 2009, 8 Rhagfyr 2009 a 10 Chwefror 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A

### (xviii) P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu arian ar gyfer 5 trên ychwanegol y dydd i Abergwaun.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-256.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Sam Faulkner a Joanne Griffiths

**Nifer y llofnodion:** 10 (yn gystal â hyn, casglodd deiseb gysylltiedig 1317 o lofnodion)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 24 Tachwedd 2009 ac 1 Chwefror 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Pwyllgor Menter a Dysgu, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xix) P-03-257 Adfer darlledu o'r Cynulliad ar S4C2

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Comisiwn y Cynulliad i gynnal trafodaethau brys â'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig i sicrhau bod darllediadau o drafodion y Cynulliad yn dychwelyd i S4C/2 cyn gynted ag sy'n bosibl fel bod rhai sydd â diddordeb mewn llywodraethu yng Nghymru yn gallu gwylio trafodion y Cynulliad heb orfod defnyddio cyfrifiadur.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-257.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Harry Hayfield

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 23 Chwefror 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Llywydd ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xx) P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ohirio penderfyniad ynglyn â'r ffordd osgoi arfaethedig yn y Drenewydd nes ei bod wedi datblygu a threialu cyfres o fesurau cynaliadwy yn y dref ei hun i fynd i'r afael â thagfeydd traffig.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-261.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Gary Saady

**Nifer y llofnodion:** 37

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Pwyllgor Menter a Dysgu, ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xxi) P-03-264 Helpwch i atal y dirywiad ofnadwy mewn bywyd gwyllt a chynefinoedd

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn caru bywyd gwyllt yn fawr ac yn bryderus am y byd naturiol yr ydym yn ei greu i'n plant a chenedlaethau i ddod. Bydd y targed o atal colli bioamrywiaeth erbyn 2010 wedi'i fethu - rydym yn parhau i golli ein bywyd gwyllt. Credwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu'n awr i atal colli bioamrywiaeth a chymryd camau rhagweithiol i adfer cynefinoedd pwysig a rhywogaethau sydd mewn perygl.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal ymchwiliad llawn i ddarganfod pam y bydd y targed wedi'i fethu ac i wneud argymhellion pendant i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ba gamau sydd angen eu cymryd i adfer ar unwaith ein bioamrywiaeth a gollwyd

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-264.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** RSPB Cymru

**Nifer y llofnodion:** 541

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwr a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae wedi ynghlwm fel rhan o PET(3) 04-10 Papur 2A.

### (xxii) P-03-268 Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Aneurin Bevan

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu Uned Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty newydd Aneurin Bevan - Ysbyty Blaenau Gwent.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-268.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Rhianydd Williams

**Nifer y llofnodion:** 16 (Yn ogystal â hyn, casglodd deiseb gysylltiedig 302 o lofnodion.)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xxiii) P-03-270 Gweithredu dros Blant

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o leoliadau dysgu seiliedig ar waith sy'n fwy addas ar gyfer anghenion y bobl ifanc hynny sy'n fwy agored i niwed, ac sy'n eu symud ymlaen o ddifrif gan sicrhau eu bod yn ennill cymhwyster NVQ2 o leiaf. Yn benodol, byddem yn hoffi gweld rhagor o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref sydd am gael hyfforddiant ac nad ydynt yng ngofal awdurdod lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-270.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Action for Children / Gweithredu dros Blant

**Nifer y llofnodion:** 1 (cyflwynwyd deiseb gan Action for Children / Gweithredu dros Blant, fel sefydliad)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Addysg, Plant a dysgu Gydol Oes a mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xxiv) P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol i

sicrhau eu bod yn ymgynghori'n briodol â chymunedau ynghylch datblygiadau ffermydd gwynt a'u bod yn cynnal asesiad priodol o effaith y datblygiadau ar y seilwaith ffyrdd gan ystyried sut y bydd problemau traffig yn effeithio'n ehangach ar sectorau fel twristiaeth cyn cymeradwyo unrhyw ddatblygiad. Credwn mai dim ond drwy gynnal ymchwiliad cyhoeddus y gellir cwblhau asesiad priodol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-273.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cyngor Tref y Trallwng

**Nifer y llofnodion:** 1

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Chadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ac mae wedi ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

### (xxv) P-03-276 Cynnig dros ferched - Sustrans

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, eisiau gallu dewis beicio llawer mwy. Er mwyn gwneud hynny mae angen i ni deimlo'n ddiogel wrth feicio.Rydym yn mynnu bod llywodraethau yn rhoi blaenoriaeth i greu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi beicio. Mae hyn yn golygu y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i hyn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-276.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Sustrans

**Nifer y llofnodion:** 9,000

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 1 Chwefror 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae ynghlwm fel rhan o PET(3)-04-10 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2010**